Busnes Cymdeithasol Cymru
Social Business Wales
Yn fentrus gadarnhaol
Positively enterprising

# Nodyn cyfarwyddyd ar Goronafeirws (COVID-19: adnoddau dynol a staff

DIWEDDARIAD 1 Medi 2020

Cyhoeddwyd y nodyn cyfarwyddyd hyn gyntaf ar 16 Ebrill 2020 cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau'r sector a'r canllawiau ar Brofi, Olrhain, Diogelu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal sawl adolygiad ers hynny ac wedi cyhoeddi canllawiau manwl ar gyfer sectorau amrywiol. Gallwch ganfod yr holl wybodaeth ddiweddaraf a'r canllawiau sector benodol yma: https://llyw.cymru/eich-cyfrifoldebau-fel-cyflogwr-coronafeirws

Mae'r canllawiau ar Brofi, Olrhain, Diogelu i gyflogwyr ar gael yma: https://llyw.cymru/cyflogwyr-canllawiau-profi-olrhain-diogelu-y-coronafeirws

Rydym wedi diweddaru'r nodyn cyfarwyddyd hwn gydag ambell ddolen ychwanegol ers eu cyhoeddi'n wreiddiol.

Fel sector rydym i gyd yn gwerthfawrogi ein staff ac yn anelu at ddarparu amgylcheddau gwaith diogel, cyflog teg a sicrwydd swydd. Mae'r cyfnod hwn yn ddigynsail a bydd llawer o fusnesau cymdeithasol ledled Cymru am sicrhau bod eu cyflogeion yn cael eu diogelu rhag haint a hefyd yn cael cymorth os bydd angen iddynt hunanynysu neu os byddant yn mynd yn sâl.

Yn anffodus bydd rhai busnesau cymdeithasol hefyd yn wynebu penderfyniadau anodd o ran eu cyflogeion. Efallai y bydd angen i rai ystyried cau'r busnes dros dro neu leihau oriau cyflogeion, ac efallai y bydd rhai yn wynebu diswyddiadau posibl.

Bwriad y nodyn briffio hwn yw eich cyfeirio at wybodaeth ac adnoddau defnyddiol yn ymwneud â phryderon ynghylch AD a staffio yn ystod y pandemig hwn. Efallai y byddwn yn diweddaru'r briffiad hwn yn rheolaidd wrth i fwy o wybodaeth a chyngor fod ar gael.

Mae llawer o'r dolenni i'r ddogfen hon i wefannau allanol; fe'u rhennir gyda phob ewyllys da ond ni allwn reoli eu cynnwys na'u cywirdeb.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Mae'r sefyllfa yn newid yn gyflym ac rydym yn gweithio fel tîm i ddatblygu adnoddau a chyngor penodol a fydd ar gael yn fuan, felly cadwch lygad am y wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost ac ewch i'n gwefan https://cymru.coop/covid-19 neu https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy yn rheolaidd hefyd.

Byddem hefyd yn croesawu unrhyw adborth ar y materion sydd bwysicaf i chi a'ch busnes cymdeithasol. E-bostiwch ni a gadewch i ni wybod: sbwenquiries@wales.coop

**Diogelu cyflogeion a gweithdrefnau ar gyfer delio â COVID-19 (hunanynysu, salwch, tâl salwch)**

- I'r busnesau hynny sydd ar agor neu sy'n bwriadu ailagor, cyfeiriwch at ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru (Rheoliadau Coronafeirws) mewn perthynas â chadw pellter corfforol yn y gweithle, yn benodol cadw pellter o 2 fetr rhwng pobl mewn lleoliad gwaith, pryd bynnag y bo'n bosibl gwneud hynny: https://llyw.cymru/cymryd-pob-mesur-rhesymol-i-leihaur-risg-o-ddod-i-gysylltiad-ar-coronafeirws-mewn-gweithleoedd
- Am wybodaeth am Gymorth Tâl Salwch Statudol Llywodraeth y DU os nad yw gweithiwr yn gallu gweithio yn sgil COVID-19 ewch i wefan Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/statutory-sick-pay
- a Chynllun Cadw Swyddi ar wefan Busnes Cymru: https://businesswales.gov.wales/campaigns/cy/cymorth
- ACAS: cyngor ar adnoddau dynol i gyflogeion a chyflogwyr, gan gynnwys gweithdrefnau, tâl salwch, contractau, gwyliau a diswyddiadau. https://www.acas.org.uk/coronavirus
- Pe bai rhagor o ysgolion y wladwriaeth yn cau yn yr ysgol, mae gan ACAS ganllaw ar sefydlu a rheoli gweithio gartref: https://archive.acas.org.uk/index.aspx?articleid=4853
- Yn sgil cyhoeddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru am gau ysgolion gwladol, efallai y bydd y canllawiau hyn gan ACAS ar absenoldeb rhieni yn ddefnyddiol: https://www.acas.org.uk/parental-leave
- Mae ein cyfeillion yn CGGC yn darparu diweddariadau dyddiol ar COVID-19 a gallwch gofrestru yma. Mae hefyd wedi rhyddhau datganiad llawn gwybodaeth ar goronafeirws: https://wcva.cymru/cy/datganiad-ar-y-coronafeirws/
  Mae wedi cynnwys dolen ddefnyddiol i'w chwaer gorff yn Lloegr, sef NCVO – gweler isod.
- Mae NCVO yn darparu cyngor rheolaidd ar sawl agwedd ar gadw staff yn ddiogel, absenoldeb salwch a hefyd sawl maes arall fel cynlluniau wrth gefn, yswiriant a llywodraethu: https://www.ncvo.org.uk/practical-support/information/coronavirus
- Mae Co-operatives UK wedi llunio nodyn cyfarwyddyd defnyddiol iawn ar ddiogelu cyflogeion rhag haint, absenoldeb a thâl, cynllunio parhad busnes, yn ogystal â'r holl gyngor allanol:

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

https://www.uk.coop/hrpackage/coronavirus

- Mae Peninsular HR wedi llunio canllawiau defnyddiol ar ddychwelyd i'r gwaith ar ôl y cyfnod clo ac ar ddiogelwch yn y gweithle: https://pages.peninsulagrouplimited.com/rs/023-IMK-845/images/Peninsula_Back_to_Work_Guide.pdf
- Rydym wedi llunio ein cyfres 'Y Siwrnai i Ailagor eich Busnes Cymdeithasol' sy'n cynnwys llawer o wybodaeth am ddychwelyd i'r gwaith ac ailagor, gan gynnwys rhestr wirio o bethau allweddol i'w hystyried fel cyflogwr.

Mae **Rhan 1** ar gael yma: https://cymru.coop/wp-content/uploads/2020/06/Journey-To-Reopening-Stage-1-v1.1-final-cym.pdf

Mae **Rhan 2** ar gael yma: https://cymru.coop/wp-content/uploads/2020/08/Journey-To-Reopening-Stage-pt-2-v1-cym.pdf

Cadwch lygad am Ran 3, a fydd ar gael maes o law!

**Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru - canllawiau ar gyfer cyflogwyr**
Mae'n bwysig deall sut mae gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yn gweithredu yn enwedig os yw'r broses olrhain cyswllt yn cael ei rhoi ar waith am fod rhywun yn eich eiddo yn profi'n bositif ar gyfer COVID-19 neu'n cael ei nodi fel cyswllt. Gall cyflogwyr yng Nghymru gael rhagor o wybodaeth am Wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yma https://llyw.cymru/cyflogwyr-canllawiau-profi-olrhain-diogelu-y-coronafeirws

**Cadw cofnodion a diogelu data**
Ar ôl i chi ailagor eich busnes, gofalwch fod gennych chi system ar gyfer cadw cofnodion eich holl staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr â safle'ch busnes. Dydy hyn ddim yn ofyniad cyfreithiol o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Fodd bynnag, mae'n rhan bwysig iawn o gefnogi Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru.

O ran eich gweithwyr (ynghyd ag ymwelwyr/cwsmeriaid sy'n ymweld â safle), mae hefyd yn bwysig cyfeirio at ganllawiau ar ddiogelu data mewn perthynas â chasglu data a Phrofi, Olrhain, Diogelu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer pob busnes yng Nghymru sy'n nodi sut i gasglu a chadw cofnodion staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr â'u heiddo. Dim ond yn y tymor byr y bydd y cofnodion hyn yn cael eu cadw. Mae canllawiau llawn ar gael yma: https://llyw.cymru/cadw-cofnodion-ynghylch-staff-cwsmeriaid-ac-ymwelwyr-profi-olrhain-diogelu

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Mae cwestiynau posib sydd gan gyflogwyr yn cael eu hateb ar gael yma: https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-eich-cwestiynau

Mae'r rheoliadau diogelu data arferol yn berthnasol Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelu data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data mewn perthynas â COVID-19 ar gael gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/global/data-protection-and-coronavirus-information-hub/coronavirus-recovery-data-protection-advice-for-organisations/collecting-customer-and-visitor-details-for-contact-tracing/

**Canllawiau ar leihau lefelau staff a'r bygythiad o golli swyddi**
Cyfeiriwch at ein dau nodyn cyfarwyddyd Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU am wybodaeth fanwl am y cymorth sydd ar gael ar gyfer busnesau sy'n rhoi eu gweithwyr ar ffyrlo: https://wales.coop/covid-19-factsheets/

- Gyda'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth ar wefan Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme
- Mae ACAS yn darparu canllawiau arferion gorau ar gau busnes, diswyddo staff a gweithio amser byr drwy ei gyngor coronafeirws i Gyflogwyr a Chyflogeion: https://www.acas.org.uk/coronavirus
- ACAS – canllawiau ychwanegol – Layoffs and short time working: https://archive.acas.org.uk/index.aspx?articleid=1639

**Cyfraith Cyflogaeth ac Adnoddau Dynol – ffynonellau cyngor cyfreithiol cyfredol**

- Mae gwefan ACAS yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar faterion cyfreithiol yn ymwneud â chyflogaeth: https://www.acas.org.uk/
- Mae Perspective HR wedi llunio cyngor defnyddiol iawn ar faterion cyfraith cyflogaeth a COVID-19. Maen nhw hefyd wedi paratoi cwestiynau cyffredin a sefyllfaoedd cyffredin o safbwynt cyfraith cyflogaeth: https://www.perspectivehr.co.uk/blog/
- Gall Co-operatives UK hefyd ddarparu gwasanaeth cyngor cyfreithiol cynhwysfawr ar adnoddau dynol i'w aelodau: https://www.uk.coop/developing-co-ops/hr-services/hr-law

**Ymgysylltu a gweithio fel tîm:**
Gellir gweld y canllawiau diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yma: https://covid19-phwstatement.nhs.wales/

Dyma ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y coronafeirws:
https://llyw.cymru/coronafeirws

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Mae yna reolau newydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i bawb aros gartref ac osgoi dod i gysylltiad ag eraill. Mae yna ambell eithriad, a fanylir yn y datganiad uchod a hefyd yng nghanllawiau llawn Llywodraeth Cymru, yma: https://llyw.cymru/coronafeirws

I'r sefydliadau hynny sy'n parhau i weithredu polisïau gweithio o gartref, dyma ambell ffynhonnell arweiniad ddefnyddiol ar sut i ddal ati i gyfathrebu ac ymgysylltu â staff.

Cadw mewn cysylltiad â thimau o bell:

- Microsoft teams: i ddefnyddwyr Office 365 https://teams.microsoft.com/start
- Slack: trafodaeth tîm ar unrhyw ddyfais https://slack.com/intl/en-gb/
- Zoom: ar gyfer cyfarfodydd ar-lein, weminarau a galwadau cynadledda https://zoom.us/
- Mae rhai cleientiaid wedi dweud wrthym eu bod wedi newid i WhatsApp er mwyn eu helpu i gynnal trafodaethau a gwneud penderfyniadau yn gyflym o ran rhoi'r gorau i weithgareddau, llif arian parod, cau lawr, cynlluniau wrth gefn ac ati.

Erthyglau ar weithio o bell yn ystod y pandemig:

- BBC: https://www.bbc.com/worklife/article/20200312-coronavirus-covid-19-update-work-from-home-in-a-pandemic
- Erthygl Forbes ar arwain o bell: https://www.forbes.com/sites/jasonwingard/2020/03/13/team-working-at-home-because-of-coronavirus-heres-how-to-lead-them-effectively/#7387d4b43162

**Gwneud penderfyniadau a staff hollbwysig:**
Mae'n bwysig nodi staff sy'n hollbwysig i'r busnes (er enghraifft y Swyddog Cyllid) a chreu cynllun sy'n ystyried sut y byddwch yn gweithredu os bydd yn mynd yn sâl.

Sicrhewch fod llinell orchymyn glir fel bod modd gwneud penderfyniadau gweithredol yn gyflym. Lluniwch gynllun ar gyfer y ffordd y gwneir penderfyniadau os bydd person allweddol fel y Cadeirydd neu'r Prif Swyddog Gweithredol yn mynd yn sâl. Sicrhewch fod aelodau o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn rhan o'r broses hon.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Busnes Cymdeithasol Cymru
Social Business Wales
Yn fentrus gadarnhaol
Positively enterprising

**Cymorth Iechyd Meddwl:**
Ffynonellau gwybodaeth i'ch helpu i ofalu amdanoch chi eich hun a staff:

- ACAS https://www.acas.org.uk/supporting-mental-health-workplace
- Sefydliad Iechyd Meddwl: dolenni cyfeirio cyflym i'r rhai sydd angen cymorth ar unwaith https://www.mentalhealth.org.uk/your-mental-health/getting-help
- Mae hefyd wedi llunio'r erthygl ddefnyddiol hon: https://www.mentalhealth.org.uk/publications/looking-after-your-mental-health-during-coronavirus-outbreak
- Mind: https://www.mind.org.uk/information-support/coronavirus-and-your-wellbeing/#collapse7b25d
- Amser i Newid Cymru https://www.timetochangewales.org.uk/cy/
- WHO (Sefydliad Iechyd y Byd): https://www.who.int/docs/default-source/coronaviruse/mental-health-considerations.pdf?

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund